



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Gynradd Rhydyfro
Waun Penlan
Pontardawe
Abertawe
SA8 3BB**

Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2012

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**



Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

© Hawlfraint y Goron 2012: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 05/09/12

Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Rhydyfro ym mhentref Rhydyfro ychydig y tu allan i dref Pontardawe yng Nghwm Tawe. Ar hyn o bryd, mae 93 o ddisgyblion amser llawn ar y gofrestr, gyda 22 o blant meithrin ychwanegol yn mynychu yn y bore yn unig. Mae tri athro amser llawn a phedwar athro rhan-amser yn yr ysgol. Gall disgyblion ddechrau addysg ran-amser yn y feithrinfa ddiwrnod ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed.

Daw'r rhan fwyaf o ddisgyblion o ardal eang o gwmpas pentref Rhydyfro a thref Pontardawe. Mae eu hamgylchiadau cymdeithasol ac economaidd yn amrywio, ond maent yn ddifreintiedig yn gyffredinol. Mae hawl gan tua 36% o ddisgyblion gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn wedi cynyddu'n gyson dros y pedair blynedd diwethaf ac mae uwchlaw cyfartaledd yr awdurdod lleol a'r cyfartaledd cenedlaethol. Daw bron pob un o'r disgyblion o gartref lle Saesneg yw'r iaith gyntaf. Mae symudedd disgyblion yn uchel ac mae'n amrywio rhwng 20% a 50% mewn unrhyw flwyddyn benodol. Ar hyn o bryd, nodwyd bod anghenion addysgol arbennig gan 37 o ddisgyblion. Mae'r canran hwn uwchlaw cyfartaledd yr awdurdod lleol a'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae gan un disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig ac mae un disgybl yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Rhydyfro yn 2011-2012 yn golygu mai'r gyllideb yw £4,295 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Nghastell-nedd Port Talbot yw £21,718 a'r lleiafswm yw £2,648. Mae Ysgol Gynradd Rhydyfro yn y 18fed safle o'r 71 ysgol gynradd yng Nghastell-nedd Port Talbot o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym Mawrth 2006. Ar hyn o bryd, mae gan yr ysgol bennaeth dros dro sydd wedi bod mewn swydd er Mehefin 2011.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Digonol
Rhagolygon gwella'r ysgol	Da

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- mae llawer o ddisgyblion yn cyflawni safonau da yn y gwersi a arsylwyd;
- mae'r ysgol yn lle hapus, gofalgar a diogel i ddysgu;
- mae lles disgyblion yn dda; ac
- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol o'u manau cychwyn.

Fodd bynnag:

- nid yw gweithgareddau dysgu bob amser yn bodloni anghenion a galluoedd pob disgybl yn ddigon da; ac
- mae ansawdd yr addysgu yn amrywio'n ormodol o ddsbarth i ddsbarth.

Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- mae gan y pennaeth dros dro cymharol newydd a'r corff llywodraethol weledigaeth glir ar gyfer datblygiad yr ysgol;
- mae arweinwyr a rheolwyr wedi dechrau defnyddio data a thystiolaeth uniongyrchol arall yn effeithiol i nodi cryfderau a gwendidau'r ysgol;
- mae arweinwyr wedi amlygu blaenoriaethau sy'n amlwg wedi'u cysylltu â deilliannau hunanarfarnu; ac
- mae datblygiadau diweddar wedi gwella'r ddarpariaeth a'r deilliannau i ddisgyblion mewn ychydig feysydd allweddol.

Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol:

- A1 godi safonau llythrennedd, yn enwedig ysgrifennu estynedig a llawysgrifen ar draws y cwricwlwm;
- A2 darparu profiadau dysgu sy'n bodloni anghenion a galluoedd yr holl ddisgyblion yn gyson;
- A3 datblygu cynllunio'r ysgol ar gyfer datblygiad medrau disgyblion i sicrhau eu bod yn datblygu eu medrau o ddsbarth i ddsbarth ac ym mhob pwnc;
- A4 gwella ansawdd addysgu i sicrhau bod cyflymder da i bob gwera a'u bod wedi'u rheoli'n dda; a
- A5 gwella'r ffordd y mae llywodraethwyr yn herio perfformiad, yn mesur effaith unrhyw ddatblygiadau ac yn gweithredu fel ffrind beirniadol.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu, sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Digonol

Safonau: Digonol

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau llythrennedd, rhifedd a datblygiad personol a chymdeithasol sydd islaw'r cyfartaledd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar staff a disgyblion eraill ac yn cyfrannu'n dda at drafodaethau dosbarth. Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau darllen ac maent yn darllen yn gymwys i'w hoedran a'u cam datblygu. Maent yn defnyddio mynegiant priodol wrth ddarllen yn uchel a siaradant yn hyderus am yr hyn y maent wedi'i ddarllen. Mae llawer o ddisgyblion ifanc iawn yn arddangos medrau hyderus wrth wneud marciau ac mae disgyblion hŷn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu ymwybyddiaeth ffonig dda ac yn gwneud ymdrechion rhesymol i sillafu a seinio geiriau anghyfarwydd. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio geirfa gynyddol i ysgrifennu mewn amrywiaeth o ffurfiau yn ystod gwersi llythrennedd. Fodd bynnag, mae medrau cyflwyno a llawysgrifen yn wan ar draws yr ysgol ac nid yw disgyblion yn ysgrifennu'n estynedig yn gyson ar draws y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adalw dysgu blaenorol yn dda ac yn gwneud cynnydd priodol mewn dysgu newydd. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw disgyblion yn gwneud cynnydd digon da gan nad yw'r gweithgareddau'n cyfateb i ystod eu galluoedd ac yn ymestyn eu meddwl a'u dysgu ddigon.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu priodol, ond nid ydynt bob amser yn eu cymhwysu'n ddigon da ar draws feysydd pwnc gwahanol. Mae cynnydd mewn medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu mwy cymhleth, fel defnyddio cronfeydd data a thaenlenni, yn gyfyngedig.

Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n dda mewn perthynas â'u galluoedd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n cael cymorth ar gyfer eu dysgu yn gwneud cynnydd da.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau iaith Gymraeg ar draws yr ysgol. Mae'r mwyafrif yn hyderus i ddefnyddio'u Gymraeg achlysurol y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Mae canlyniadau cyffredinol yng nghyfnod allweddol 1 yn dangos bod cyrhaeddiad yr ysgol islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion, yr awdurdod lleol a Chymru ar y lefel 2 ddisgwyliedig. Fodd bynnag, bu cynnydd sylweddol mewn cyrhaeddiad yn 2011 pan berfformiodd yr ysgol uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion.

Yn y ddwy flynedd ddiwethaf, mae canlyniadau cyffredinol yng nghyfnod allweddol 2 yn dangos bod yr ysgol yn perfformio islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion ar y lefel 4 ddisgwyliedig. Fodd bynnag, mae data asesu'r ysgol yn dangos bod llawer o ddisgyblion yn cyflawni'n dda ac yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u manau cychwyn. Mae gwaith yn llyfrau disgyblion yn cadarnhau bod llawer o ddisgyblion yn gweithio ar y lefel ddisgwyliedig ac mae ychydig ohonynt yn gweithio uwchlaw'r lefel hon erbyn diwedd Blwyddyn 6.

Ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol, mae merched yn perfformio'n well na bechgyn yn gyson ar y lefelau disgwylidig mewn Saesneg.

Lles: Da

Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau'r ysgol. Mae ganddynt symbyliad da ac maent yn awyddus i ddysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae pob un ohonynt yn gwybod at bwy i droi os oes angen help arnynt. Mae eu hymddygiad da yn adlewyrchu eu hagwedd gadarnhaol at fywyd yr ysgol. Maent yn gwrtais tuag at ymwelwyr a'i gilydd. Fodd bynnag, mae ychydig ddisgyblion yn gwastraffu amser mewn gwersi trwy darfu'n gyson ar lefel isel oherwydd diffyg ymrwymiad.

Mae gan yr holl ddisgyblion ddealltwriaeth sicr o ffyrdd iach o fyw ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ceisio gwneud dewisiadau synhwyrol o ran bwyd. Mae mwyafrif y disgyblion yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau allgyrsiol, fel y clybiau gemau wythnosol, sesiynau coginio a sesiynau garddio. Mae'r holl ddisgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol, ac mae ymweliadau rheolaidd â lleoedd o ddiddordeb yn cynyddu mwynhad disgyblion yn eu gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio gyda'i gilydd yn llwyddiannus i ddatrys problemau neu i gyflawni tasg benodol. Gyda chymorth gan staff, mae'r disgyblion yn dechrau ystyried sut i wella'u gwaith trwy rannu syniadau a myfyrio ar gynnydd yn ôl targedau cytûn.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud defnydd llawn o gyfleoedd i ymgymryd â chyfrifoldebau ac i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau. Maent yn datblygu ymdeimlad cryf o deyrngarwch i'r ysgol ac i'r gymuned ehangach. Mae cyngor yr ysgol yn dechrau cael effaith ar gyfleoedd disgyblion i wneud penderfyniadau ac mae'r aelodau yn ymroddedig ac yn weithgar.

Ym mlwyddyn academaidd 2010-2011, roedd cyfradd bresenoldeb yr ysgol gyfan islaw cyfartaledd y teulu, yr awdurdod lleol a'r cyfartaledd cenedlaethol. Fodd bynnag, o ganlyniad i ddull gwell yr ysgol o ddelio â phresenoldeb a chyrraedd yn hwyr, mae'r gyfradd bresenoldeb wedi codi'n sylweddol eleni.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Digonol
--	----------------

Profiadau dysgu: Digonol

Mae'r ysgol yn darparu ystod addas o gyfleoedd a phrofiadau dysgu i ddisgyblion. Mae staff yn gwella profiadau dysgu gydag ystod dda o ymweliadau, ymwelwyr a chlybiau allgyrsiol. Fodd bynnag, nid yw gweithgareddau mewn gwersi bob amser yn bodloni anghenion a galluoedd yr holl ddisgyblion. O ganlyniad i hyn, mae disgyblion o alluoedd gwahanol yn cwblhau'r un tasgau ac, o ganlyniad, nid ydynt yn cael lefel addas o her na chymorth yn eu gwaith.

Mae athrawon yn dechrau nodi cyfleoedd priodol i ddatblygu medrau cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu disgyblion mewn cynllunio tymor byr a thymor canol. Fodd bynnag, nid oes gan yr ysgol drosolwg o ddatblygiad medrau sy'n sicrhau parhad a dilyniant rhwng dosbarthiadau ac ar draws pob maes pwnc.

Mae'r ysgol yn cynnig darpariaeth effeithiol ar gyfer datblygiad iaith Gymraeg disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o staff yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd o gwmpas yr ysgol ac mae hyn yn gwella'r cynnydd a wna disgyblion. Mae staff yn rhoi cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddysgu am eu bro ac am hanes a diwylliant Cymru.

Mae darpariaeth briodol i alluogi disgyblion i ddysgu am gynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymwybodol o'r angen i ailgylchu, arbed ynni a gweithredu'n gynaliadwy. Mae aelodau o'r pwyllgor eco yn gydwytbodol ac yn falch o gyflawniad gwobrau diweddar yr ysgol.

Addysgu: Digonol

Mae athrawon yn arddangos gwybodaeth dda a chyfredol o'r pynciau y maent yn eu haddysgu, mae ganddynt amcanion clir ar gyfer eu gwersi ac, ynghyd â'r cynorthwyr addysgu, maent yn fodol da o iaith i'w disgyblion. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid oes digon o gyflymder yn yr addysgu i ennyn diddordeb disgyblion yn effeithiol. Er bod gan athrawon berthynas waith dda gyda disgyblion, mewn lleiafrif o wersi, mae'r athro yn methu delio'n briodol â tharfu ar lefel isel. Mae bron pob un o'r athrawon yn esbonio cysyniadau newydd yn glir ac yn defnyddio technegau holi effeithiol. Fodd bynnag, nid yw llawer o athrawon yn gwneud defnydd priodol o'r adnoddau, gan gynnwys technoleg i wella dysgu, ac maent yn dibynnu'n ormodol ar daflenni gwaith ar gyfer gweithgareddau.

Mae marcio gan yr athrawon yn addysgiadol ac maent yn dechrau datblygu strategaethau asesu ar gyfer dysgu. Mae gan ddisgyblion dargedau ar gyfer mathemateg a llythrennedd a chaiff y rhain eu rhannu gyda rhieni. Mae systemau olrhain newydd ar waith sy'n galluogi staff i fonitro cyrhaeddiad a lles disgyblion yn llwyddiannus ar draws yr ysgol. Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn bodloni gofynion statudol. Mae rhieni/gofalwyr yn teimlo'u bod yn cael gwybodaeth dda am gyflawniadau a chynnydd eu plant.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae ansawdd y gofal, cymorth ac arweiniad a gynigir i ddisgyblion yn effeithiol iawn ac yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at eu mwynhad o'r ysgol ac at lefelau lles uchel. Mae'r polisiâu a'r gweithdrefnau a ddatblygwyd yn ddiweddar ar gyfer hyrwyddo ymddygiad da a delio â materion fel bwlio a phresenoldeb wedi cael effaith gadarnhaol yn yr ysgol.

Mae staff yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol drwy addoli ar y cyd ac addysg bersonol a chymdeithasol. Caiff y ddarpariaeth hon ddylanwad cadarnhaol ar les disgyblion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Mae athrawon yn nodi anawsterau'n gynnar. O ganlyniad i strategaethau wedi'u targedu'n glir i ddisgyblion y mae angen cymorth arnynt, maent wedi gwneud cynnydd da yn eu dysgu, eu hagweddau a'u hymddygiad. Caiff targedau sydd wedi'u gosod ar gyfer unigolion eu rhannu gyda disgyblion a'u rheini a chânt eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r ysgol wedi sefydlu nifer o grwpiau tynnu allan o wersi i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sy'n bodloni eu hanghenion yn effeithiol. Caiff cymorth bugeiliol da ei ddarparu i'r nifer uchel o ddisgyblion sy'n symud i'r ysgol ac o'r ysgol.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau da gyda gwasanaethau arbenigol, fel therapi iaith a lleferydd a seicoleg addysg. Mae heddwes cyswllt yr ysgol yn ymweld bob tymor i siarad â'r plant am amrywiaeth o faterion sy'n effeithio ar eu dysgu a'u lles. Mae'r partneriaethau hyn yn cael dylanwad cadarnhaol ar les yn yr ysgol hefyd.

Mae gan yr ysgol bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae gan yr ysgol ethos cynhwysol a gofalgwr iawn. Mae'r holl ddisgyblion yn cael eu trin yn gyfartal ac mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth dda i gefndiroedd disgyblion i wneud yn siŵr eu bod nhw i gyd yn cymryd rhan yn llawn yng nghwricwlwm yr ysgol ac yn llwyddo ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo parch tuag at amrywiaeth ac yn cyfleu'r gwerthoedd hyn yn effeithiol i ddisgyblion drwy'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol a thrwy wasanaethau. Hefyd, mae'n dathlu cyflawniad ac ymddygiad da disgyblion drwy'r System Seren a ddatblygwyd yn ddiweddar, sy'n nodi ac yn dathlu'r disgyblion hynny ar draws yr ysgol sydd wedi gwneud yn dda.

Mae'r ysgol yn cynnig amgylchedd llachar, cynnes a chroesawgar i bob dysgwr. Mae'r adeiladau o safon dda ac mae adeiladau a thir yr ysgol yn cael eu cynnal yn dda. Mae arddangosiadau ystafelloedd dosbarth ac arddangosiadau cyffredinol ar waliau yn ddeniadol ac yn addysgiadol. Mae adnoddau dysgu yn dda ac yn bodloni anghenion disgyblion.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Mae'r pennaeth dros dro yn rhannu ei gweledigaeth, ei gwerthoedd a'i diben yn effeithiol gyda'r holl staff, llywodraethwyr a rhieni. Mae wedi rhoi ymdeimlad clir o gyfeiriad i fywyd a gwaith yr ysgol ac mae wedi datblygu cysylltiadau da gyda disgyblion a'u teuluoedd.

Caiff y pennaeth dros dro ei chefnogi'n dda gan y dirprwy bennaeth dros dro a'r staff, sy'n chwarae rhan weithgar yn y broses benderfynu.

Mae'r holl aelodau staff yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi ac mae gan bob un ohonynt gyfrifoldebau penodol am ddatblygu mentrau amrywiol. Mae'r rhain yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar yr ysgol fel cymuned ddysgu. Nid yw'r broses hunanarfarnu newydd ei sefydlu a rolau arwain pwnc wedi cael effaith lawn eto ar safonau a darpariaeth.

Mae'r corff llywodraethol yn rhannu ymdeimlad y pennaeth dros dro o gyfeiriad i'r ysgol. Mae'r llywodraethwyr yn cefnogi'r ysgol ac yn awyddus i weld gwelliannau. Maent yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd, ond nid yw eu rôl yn monitro'r ddarpariaeth a herio'r ysgol fel ffrindiau beirniadol wedi'i datblygu'n llawn eto.

Mae'r ysgol yn dangos ymrwymiad clir tuag at fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol, fel gwella safonau mewn llythrennedd a mynd i'r afael â difreintedd. Mae'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i yrru gwelliant yr ysgol.

Gwella ansawdd: Digonol

Mae'r uwch dîm arwain yn mynd ati i annog llywodraethwyr a staff i gyfrannu at bob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae'r ysgol yn defnyddio adroddiadau monitro'r awdurdod lleol a chanlyniadau holiaduron i ddisgyblion a rhieni i nodi meysydd i'w gwella. Mae rhaglen briodol ar waith ar gyfer monitro pynciau ac agweddau ysgol gyfan, sy'n cynnwys pob arweinydd pwnc yn weithgar. Er bod y pennaeth dros dro wedi cyflwyno nifer o fentrau newydd, nid yw'r rhain wedi cael digon o amser i ymsefydlu yn yr ysgol ac megis dechrau y mae datblygu diwylliant effeithiol o hunanarfarnu.

Mae cyswllt clir rhwng deilliannau'r broses hunanarfarnu ddiweddar a blaenoriaethau cynllun datblygu'r ysgol. Mae cynllun datblygu'r ysgol yn nodi blaenoriaethau priodol ac mae'n cynnwys camau gweithredu ac amserlenni addas, er nad oes digon o ddefnydd o dargedau mesuradwy, penodol i helpu i fesur cynnydd.

Mae arweinwyr yn cynnig cyfleoedd priodol i staff elwa o ddatblygiad proffesiynol parhaus. Mae'r gweithdrefnau rheoli perfformiad yn cynnwys cytuno ar nodau a phennu anghenion datblygu penodol. Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gyda'i chlwtwr o ysgolion ac mae wedi dechrau datblygu rhwydweithiau o arfer broffesiynol ar ddarllen dan arweiniad a medrau meddwl.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae gan yr ysgol bartneriaeth dda gyda rhieni ac mae bron pob un o'r rhieni yn gadarnhaol ynghylch pob agwedd ar fywyd yr ysgol. Teimplant fod croeso iddynt yn yr ysgol a'u bod yn cael gwybodaeth dda am ddigwyddiadau bob dydd drwy gylchlythyron a negeseuon testun rheolaidd. Ers ei phenodiad, mae'r pennaeth dros dro wedi mynd ati i gael barn rhieni ac wedi ymateb yn gadarnhaol i'w hadborth a'u hawgrymiadau. Mae bron pob un o'r rhieni'n teimlo bod trefniadau a wneir ar gyfer disgyblion sy'n newydd i'r ysgol yn effeithiol a'u bod yn helpu disgyblion i ymgartrefu'n gyflym.

Mae'r ysgol yn cydweithredu'n dda â'i hysgol uwchradd gyfagos a'r clwtwr o ysgolion cynradd lleol i rannu adnoddau'n effeithiol. Mae'r trefniadau hyn yn cynnwys rhannu athro Cymraeg arbenigol i godi safonau mewn Cymraeg ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. Mae trefniadau pontio da ar waith sy'n sicrhau bod disgyblion wedi'u paratoi'n dda ar gyfer mynd i ysgol uwchradd. Mae cyfarfodydd ar y cyd ag ysgolion cynradd lleol eraill i safoni a chymedroli gwaith disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

Mae cysylltiadau da gyda'r gymuned wedi gwella'r ddarpariaeth allgyrsiol yn yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys defnyddio ymweliadau lleol â chanolfan gelfyddydau Pontardawe ac ymwelwyr â'r ysgol, fel y ficer lleol a Phrosiect Pêl-droed Cymunedol Clwb Pêl-droed Abertawe. Mae'r holl bartneriaethau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion.

Rheoli adnoddau: Digonol

Caiff yr ysgol ei staffio'n effeithiol ac mae'n rheoli ei chyllideb yn dda. Mae gwariant wedi'i gysylltu'n glir â blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol. Er bod llawer wedi'i gyflawni'n ddiweddar, nid yw'r cynllun strategol a'r blaenoriaethau datblygu wedi cael amser eto i ymsefydlu ac i ddylanwadu'n llawn ar gynllunio, addysgu a safonau disgyblion.

Mae gan yr ysgol ystod addas o adnoddau dysgu sy'n cael eu defnyddio'n briodol i fodloni anghenion yr holl ddisgyblion. Gwneir defnydd da o staff cymorth. Mae ffocws priodol ar ddatblygiad staff trwy weithdrefnau rheoli perfformiad.

Er y bu cynnydd diweddar mewn sawl maes, mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian oherwydd y diffygion yn neilliannau disgyblion ac mewn agweddau ar ei darpariaeth.

Atodiad 1

Sylwebaeth ar ddata perfformiad

Mae perfformiad yr ysgol yn 2011, o gymharu â pherfformiad ei theulu o ysgolion, yn dangos bod yr ysgol yn perfformio ar lefel llawer uwch na'r disgwyl ym mhob pwnc ar ddiwedd cyfnod allweddol 1. Fodd bynnag, mae'n perfformio ychydig islaw'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer pob pwnc a'r dangosydd pwnc craidd ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau islaw cyfartaledd yr awdurdod lleol. Erbyn saith oed, ar ddiwedd cyfnod allweddol 1, mae llawer o ddisgyblion wedi gwneud cynnydd da. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 1, mae asesiadau gan athrawon dros y tair blynedd diwethaf yn dangos tuedd gyffredinol at i fyny ym mherfformiad disgyblion mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, ac yn y dangosydd pwnc craidd ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 2). Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ennill y lefel ddisgwyliedig (lefel 2) yn unol â disgwyliadau cenedlaethol mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae cyrhaeddiad disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 uwchlaw ysgolion sydd â chanran debyg o ddisgyblion â hawl i brydau ysgol am ddim. Mae'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn rhoi'r ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg.

Y llynedd, fe wnaeth cyrhaeddiad ar y lefel uwch (lefel 3) ym mhob pwnc wella oherwydd yn y pum mlynedd flaenorol, nid oedd yr un disgybl wedi cyflawni ar y lefel uwch. Roedd cyrhaeddiad disgyblion ar y lefel uwch wedi symud yr ysgol i'r 25% uchaf o ysgolion tebyg ar gyfer Saesneg a Mathemateg ac i'r 50% uchaf o ysgolion tebyg ar gyfer gwyddoniaeth.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae asesiadau athrawon dros y tair blynedd diwethaf yn dangos amrywiadau ym mherfformiad disgyblion mewn Saesneg a mathemateg ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4). Bu tuedd at i lawr ym mherfformiad disgyblion mewn gwyddoniaeth. Mae asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn 2011 yn rhoi'r ysgol yn yr 50% uchaf ar gyfer mathemateg ac ar gyfer y dangosydd pwnc craidd o'i chymharu ag ysgolion sydd â chanran debyg o ddisgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim. Roedd yr ysgol yn yr 50% is o ysgolion tebyg ar gyfer Saesneg a gwyddoniaeth.

Mae perfformiad ar y lefel uwch (lefel 5) mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi amrywio hefyd dros y tair blynedd diwethaf, gan roi'r ysgol rhwng y 25% isaf a'r 25% uchaf o ysgolion sydd â lefelau tebyg o brydau ysgol am ddim. Roedd perfformiad disgyblion ar y lefel uwch yn 2011 islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion.

Yn 2011 yng nghyfnod allweddol 1, fe wnaeth merched berfformio'n well na bechgyn mewn Saesneg ac wrth sicrhau'r dangosydd pwnc craidd. Yng nghyfnod allweddol 2 yn 2011, fe wnaeth merched berfformio'n well na bechgyn wrth sicrhau'r dangosydd pwnc craidd, Saesneg a mathemateg ar y lefel ddisgwyliedig. Roedd y bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched yn y ddau gyfnod allweddol yn fwy na

chyfartaleddau'r teulu a Chymru gyfan. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, fe wnaeth merched berfformio'n well na bechgyn ar y lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg yn y ddau gyfnod allweddol.

Mae bron pob un o'r disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd da yn y ddau gyfnod allweddol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y nodir bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud o leiaf y cynnydd disgwyliedig ac mae'r mwyafrif yn gwneud yn well fyth.

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Nid oes sylwebaeth ar yr holiadur i rieni oherwydd nifer bychan yr ymatebion a gafwyd (llai na 10) cyn y dyddiad olaf ar gyfer eu casglu.

Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr:

Llenwodd pedwar deg saith o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yr holiadur. At ei gilydd, roedd ymatebion disgyblion i'r rhan fwyaf o gwestiynau yn cyd-fynd â meincnodau cenedlaethol neu roeddent uwchlaw'r rhain.

Mae'r holl ddisgyblion yn dweud:

- eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol;
- eu bod yn gwybod gyda phwy i siarad os ydynt yn poeni neu'n gofidio; a
- bod athrawon ac oedolion yn yr ysgol yn eu helpu i wneud cynnydd da.

Dywed bron pob un o'r disgyblion:

- eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol;
- eu bod yn dysgu cadw'n iach;
- bod digon o gyfleoedd ganddynt i wneud ymarfer corff rheolaidd;
- eu bod yn gwybod sut i gael help os yw eu gwaith yn rhy anodd; a
- bod eu gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella.

Dywed llawer o ddisgyblion:

- bod digon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron ganddynt i wneud eu gwaith;
- bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio; a
- bod disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda yn ystod amser chwarae ac amser cinio.

Dywed tua hanner y disgyblion:

- bod disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu gwneud eu gwaith.

Roedd ymatebion cadarnhaol disgyblion islaw'r meincnodau cenedlaethol o ran cael digon o adnoddau ysgol, ymddygiad priodol gan ddisgyblion a bwlio.

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Sarah Hurst	Arolygydd Cofnodol
Eleri Hurley	Arolygydd Tîm
Julie Price	Arolygydd Lleyg
David Witchell	Arolygydd Cymheiriaid
Sarah Griffiths	Enwebai'r Ysgol

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALLau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	CSD	CSB1	CSB2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau – Cynradd

Cwricwlwm Cenedlaethol

Lefelau disgwylidig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.